

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-03-03 (p1)

Dyddiad: 24 Medi 2003
Amser : 9.00am – 12.00pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADOLYGIAD POLISI: YSGRIFENNU CYFRWNG SAESNEG YNG NGHYMRU - CRYNODEB O'R YMATEBION

Mae'r papur amgaeedig yn crynhoi'r brif bwyntiau fesul pennawd. Amgaeir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Yn Atodiad 2, ceir fersiwn fwy diweddar o'r nodiadau cefndir a roddwyd ger bron y Pwyllgor ar 26 Chwefror 2003.

Trafodaeth

Cododd yr un themâu dro ar ôl tro yn nifer o'r pynciau y gwnaed sylwadau arnynt. Y rhain oedd:

- dim cydraddoldeb yn y gefnogaeth i ysgrifennu cyfrwng Saesneg ac ysgrifennu cyfrwng Cymraeg
- y rhan bwysig y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae o ran codi ymwybyddiaeth am ysgrifennu Saesneg Cymru
- diffyg cefnogaeth y cyfryngau
- diffyg cefnogaeth llyfrwerthwyr
- cefnogaeth annigonol i gyhoeddwyr a gwendid y sector cyhoeddi masnachol
- y cyfraniad pwysig y gallai'r system addysg ei wneud.

Tynnwyd ein sylw hefyd at rôl cyrff blaenllaw yn y maes, gyda chefnogaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Llyfrau Cymru, yr Academi a Sgript. Ar y llaw arall, teimlwyd y gallai Cyngor y Celfyddydau wneud mwy dros lenyddiaeth yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gan nifer o gyrff i ystyried dogfen ymgynghori Cyngor Llyfrau Cymru ar "Strategaeth Farchnata Gytûn".

Cyngor

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi canlyniadau'r adolygiad ac i ystyried yr agweddau y carai ymchwilio iddyn nhw'n ddyfnach yn y sesiynau casglu tystiolaeth lafar.

MRCS Medi 2003

Cyflwyniad

Estynnwyd gwahoddiad i bobl gyfrannu at yr adolygiad ar 15 Gorffennaf, gyda'r ymatebion i'n cyrraedd erbyn 29 Awst. Cawsom 34 o ymatebion, oddi wrth academyddion, cyhoeddwyr, cyrff addysgol, cyrff cyhoeddus diwylliannol a charfannau eraill â diddordeb. Gofynnwyd am sylwadau ar:

- cyfraniad llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru at ddiwylliant Cymru
- y dulliau o gefnogi llenorion yng Nghymru, gan gynnwys dramodwyr ac awduron sgriptiau
- y dulliau cefnogi ar gyfer cynhyrchu a marchnata ysgrifennu newydd, gan gynnwys cefnogaeth y sector preifat
- dulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lenyddiaeth ac awduron cyfrwng Saesneg yng Nghymru
- y rhwystrau a'r cyfleoedd sydd i'w cael ar hyn o bryd
- y cysylltiadau â sectorau eraill, megis addysg a thwristiaeth
- rôl y sefydliadau perthnasol, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a phreifat
- a ddylid rhoi blaenoriaeth i ysgrifennu newydd neu i'r 'clasuron'
- sut orau i reoli'r gefnogaeth i gynnal clasuron Saesneg Cymru.

Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r prif bwyntiau fesul pennawd.

Cyfraniad llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru at ddiwylliant Cymru

Doedd yna fawr o anghytundeb barn ymhlith yr ymatebwyr am gyfraniad pwysig ysgrifennu cyfrwng Saesneg, neu ysgrifennu Saesneg o Gymru, at ddiwylliant Cymru, nawr nac yn y gorffennol. "Ni ellir gorliwio'i bwysigrwydd" yw'r ymadrodd gorau i grynhoi'r farn gyffredinol. Fel y gwelwn nês ymlaen fodd bynnag, mae yna ofidiau ynghylch y gydnabyddiaeth y mae'n ei gael.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd mai Saesneg yw prif iaith mwyafrif pobl Cymru, a bod ysgrifennu Saesneg o Gymru felly yn hynod bwysig i ddiwylliant Cymru. Mae'n hanfodol felly bod yna ddeunydd darllen o bob math o'r ansawdd uchaf ar gael. At hynny, teimlwyd bod y Saesneg, fel prif iaith Cymru, o bwys aruthrol a sylfaenol i ddatblygiad y wlad, nid yn unig o safbwynt diwylliannol ond hefyd o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.

Awgrymwyd bod ysgrifennu cyfrwng Saesneg o Gymru yn ffurf lenyddol lawn mor nodedig ag y mae, dyweder, ysgrifennu o Loegr, Iwerddon ac America. Mae ysgrifennu cyfrwng Saesneg o Gymru yn fwy tebygol o gael ei ddeall gan ddarllenwyr y tu hwnt i Gymru ac felly'n gyfrwng i bobl ddod i adnabod diwylliant Cymru. Fe'i gwelir hefyd fel cyswllt Cymru â llenyddiaethau eraill y byd, ac yn enghraifft arwyddocaol o lenyddiaeth Saesneg sydd heb fod o Loegr.

Mynegwyd barn hefyd am le ysgrifennu cyfrwng Saesneg mewn perthynas ag ysgrifennu cyfrwng Cymraeg. Dywedwyd "os oes gan Gymru ddwy iaith, mae

ganddi ddwy lenyddiaeth". Os y Saesneg felly yw un o ieithoedd Cymru, gyda'i diwylliant hanesyddol a chyfoes ei hun, rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer gweithgarwch diwylliannol ynddi fel iaith y mwyafrif, law yn llaw â'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Os nad yw, bydd y Saesneg, ar ei gorau, fawr gwell nag iaith 'daleithiol' yng Nghymru, fydd ond yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn y Lloegr fetropolitanaid fawr a byth yn debygol o dyfu'n gyfrwng diwylliant arwyddocaol. Neu'n waeth fyth, bydd yn iaith dramor. Nid hynny mohoni.

Dywedwyd mai hanfod pob diwylliant yw ei lenyddiaeth ac yng Nghymru, mae gwaith awduron yn y naill iaith a'r llall, yn diffinio'i diwylliant a'i hunaniaeth.

Cafwyd awgrymiadau hefyd bod yn rhaid cyfieithu llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg os ydym am i'r byd (a'r di-Gymraeg yng Nghymru) ei darllen o dro i dro ac y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn. Dywedodd cyfrannwr arall bod gwerth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i bobl sy'n ymfalchïo yn eu treftadaeth ond nad ydynt yn gallu siarad yr iaith gael gwerthfawrogi'r cynnwys ac er mwyn eu hannog i wella'u Cymraeg i allu darllen llyfrau yn yr iaith wreiddiol.

Ar yr ochr negyddol, teimlwyd bod diwylliant Saesneg Cymru, er lawn mor nodedig â'r diwylliant Gymraeg, o dan lawn cymaint o fygythiad, ond bod y bygythiad hwnnw'n dod o gyfeiriad gwahanol. Dywedodd cyfrannwr arall bod tuedd i ddilorni a dibrisio ysgrifennu Saesneg, a bod hyn yn fater o ofid. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth am lenyddiaeth Saesneg o Gymru - yn y wlad ei hun a'r tu hwnt iddi - yn destun siom.

O safbwynt drama, y broblem meddai un cyfrannwr yw nid yn gymaint nad oes gan Gymru draddodiad dramatig ond yr esgeulustod y mae'r traddodiad hwnnw wedi'i ddiodef. Teimlwyd fodd bynnag bod gwaith gwych wedi'i wneud o dan amgylchiadau llwm iawn. Cyfeiriodd cyfrannwr arall at y dyffig cyfleoedd i ddramodwyr cyfrwng Saesneg o'u cymharu â'r rheini sy'n ysgrifennu yn Gymraeg sy'n "mynd o nerth i nerth tra bo dramodwyr cyfrwng Saesneg yn prinhaus".

Yn olaf, awgrymwyd ei bod yn bwysig nodi cyfraniad economaidd cyhoeddi at y sector diwydiannau diwylliannol. Tynnwyd ein sylw hefyd at rôl llyfrgelloedd. Teimlwyd eu bod wastad wedi cydnabod cyfraniad mawr llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru ac maent yn prynu copïau o lyfrau ffuglen, barddoniaeth a ffeithiol yn gyson.

Y dulliau o gefnogi llenorion yng Nghymru

Cafwyd cryn amrywiaeth barn ar hyn. Roedd rhai ar y naill law yn teimlo bod yna gefnogaeth a nawdd ym mron bob cam o'r ffordd o'r awdur i'r darllenydd ond ar y llall, y gri yw "pa nawdd?".

Fel ag yn y safbwyntiau am gyfraniad ysgrifennu cyfrwng Saesneg at ddiwylliant Cymru, gwnaed cymariaethau yn y darn hwn hefyd â natur a maint

y gefnogaeth i awduron Cymraeg. Un sylw a gafwyd oedd y gellid efelychu'n rhwydd y model o fwrseriaethau mwy a mwy niferus i awduron Cymraeg ar gyfer awduron Saesneg. Dywedodd un arall, gan fod yr ochr Gymraeg wedi derbyn nawdd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n bryd nawr datblygu'r ochr Saesneg.

Gwnaeth sawl un nodi bod ysgrifennu yn Saesneg gan fwyaf yn ail alwedigaeth neu'n weithgarwch gwirfoddol. Cymysg oedd y farn am y ffynonellau nawdd amrywiol. Teimlwyd bod yr Academi yn gwneud gwaith pwysig iawn wrth ddatblygu a chynnal awduron o Gymru, ond fel pob ffynhonnell nawdd arall, mae angen mwy o adnoddau arno. Cafwyd sylwadau tebyg am Gyngor Llyfrau Cymru (CLIC). Roedd bron pawb yn gytûn fod y Cyngor yn datblygu mentrau newydd hynod arwyddocaol, fel y rhaglenni cymhorthdal. Fodd bynnag, er mwyn i ysgrifennu Saesneg allu ffynnu yng Nghymru, awgrymwyd bod angen llawer mwy o fuddsoddi cyhoeddus, o bosibl trwy CLIC.

O safbwynt llai cadarnhaol, dywedodd un ymatebydd bod y Cyngor yn gorff anhylaw ac nad oedd yn ceisio gwerthu llyfrau na gweithio y tu allan i Gymru. Dywedodd un arall bod traean awduron Cymru yn cyhoeddi eu gwaith trwy gwmnïau Llundainig, er gwaetha'r nawdd anuniongyrchol y mae CLIC yn ei roi i gyhoeddwyr trwy grantiau a gwasanaethau.

Teimlwyd nad oedd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn gwneud fawr ddim dros awduron, er i un cyfrannwr ddweud i CCC yn ei anterth (20 mlynedd yn ôl) osod isadeiledd i ddiwylliant cyfrwng Saesneg Cymru nad oedd yno cynt. Cafodd awduron o Gymru am y tro cyntaf gyhoeddi eu gwaith yng Nghymru. Ond gydag erydu sylfeini ariannol CCC, gwelwyd crebachu graddol ar ei raglen nawdd i lenyddiaeth.

Dywedwyd wrthym bod Sgript, trwy bledio achos awduron newydd, rhoi nawdd i unigolion a'i Gynllun Ysgrifennwyr Cymunedol, yn cynnig systemau cefnogi da i awduron. Dywedodd Sgript eu hunain mai'r ffordd orau o ddatblygu awduron yw trwy helpu'r awduron hynny i gynhyrchu. O safbwynt darlledu, teimlwyd nad yw darlledu cyfrwng Saesneg wedi efelychu'r hyn sydd wedi digwydd yn y Gymraeg. Dywedwyd ei bod yn warth bod BBC Cymru a HTV yn gwneud defnydd mor fach o awduron Saesneg eu hiaith Cymru. Nodwyd hefyd bod cwmnïau teledu yn noddi cyrsiau ysgrifennu Cymraeg yn Nhy Newydd, ond ni fu llwyddiant cyfatebol i'r rheini sy'n ysgrifennu yn Saesneg.

Cyfeiriwyd yn fras at ffurfiau eraill ar gefnogaeth. Teimlwyd bod gan lyfrgelloedd ran bwysig iawn i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth. Awgrymwyd bod y ffaith nad yw cyhoeddwyr bychain yn comisiynu gwaith yn llestair mawr ar gynhyrchu llyfrau yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth sy'n bod wedi'i chyfyngu i raddau i fwrseriaethau a grantiau ymchwil. Ymddengys fod amharodrydd i fuddsoddi swm sylweddol mewn nifer fach o awduron. O'r herwydd, mae'r arian sydd ar gael yn gorfod cael ei daenu'n denau.

Awgrymwyd y gellid gwneud mwy i hybu gwobrau yng Nghymru; efallai drwy hynny y gellid denu'r sector preifat i roi mwy o gefnogaeth.

O safbwynt y gweithiau eu hunain, dywedodd mwy nag un cyfrannwr fod gormod o bwyslais ar gefnogi llenyddiaeth 'gain' pan fo gwir angen annog ysgrifennu newydd ar amrywiaeth o lefelau ac mewn amrywiaeth o ffurfiau poblogaidd - nofelau poblogaidd, llyfrau ar chwaraeon neu sinema, cofiannau, llyfrau taith, storïau ditectif, *thrillers* ac ati. Er y dylid datblygu ysgrifennu o'r fath law yn llaw â gwaith mwy llenyddol, ni ddylid gwneud ar ei draul.

Yn olaf, gwnaeth un cyfrannwr grynhoi'r farn gyffredinol trwy ddweud "mae'n rhyfeddol fod llenyddiaeth sydd mor gyfoethog ac amrywiol, mor uchel ei pharch, wedi cael cymharol ychydig sylw a chefnogaeth yng Nghymru ei hun".

Dulliau cefnogi ar gyfer cynhyrchu a marchnata ysgrifennu newydd, gan gynnwys cefnogaeth y sector preifat

Dyma'r pwnc ddenodd y sylw mwyaf. **Ar farchnata**, gwnaeth un sylw grynhoi'r farn gyffredin "marchnata yw methiant mawr y byd cyhoeddi yng Nghymru". Dywedodd Cyngor Llyfrau Cymru fod mwy o grantiau, oherwydd cyfyngiadau ariannol, yn tueddu i roi pwyslais ar gynhyrchu yn hytrach nag ar farchnata. Yn 2003-04, rhoddwyd £200,000 i gyhoeddwr, £170,000 i gylchgronau a £113,000 i deitlau unigol neu raglenni cyhoeddi.

Wrth sôn am gyflwr yr ochr farchnata, dywedodd un ymatebydd mai un gŵyn gyffredin gan awduron a darllenwyr yw nad yw llyfrau Saesneg o Gymru yn cael eu hyrwyddo ac nad ydynt i raddau helaeth, ar gael y tu allan i Gymru. Un o effeithiau hyn yw bod cyhoeddwr yn colli'u hawduron mwyaf llwyddiannus sy'n mynd dros y ffin fel bod eu gwaith yn cael eu marchnata a'u dosbarthu'n ehangach.

Roedd siopau llyfrau yn cael eu beirniadu'n llym am beidio â dangos digon (os o gwbl) o weithiau gan awduron Cymreig sy'n ysgrifennu yn Saesneg. Mae llyfrau o'r fath yn cael eu rhoi'n aml mewn cornel dywyll o dan yr arwydd "Books of local interest" a chymharwyd hyn â'r sefyllfa yn yr Alban ac Iwerddon lle mae siopau llyfrau yn cadw dewis da o lyfrau eu cyd-wladwyr ac yn eu dangos mewn mannau amlwg. Mae'r siopau llyfrau sydd yn cadw llyfrau Cymreig yn bethau prin meddid ac i'w cael gan fwyaf yn y Gorllewin a'r Gogledd (gan roi ychydig iawn o sylw os o gwbl i lyfrau yn Saesneg) gyda dim ond un neu ddwy yn y De-Ddwyrain poblog. Ac o fynd dros Glawdd Offa, "mae chwilio am lyfr o Gymru yn Llundain neu Rydychen fel chwilio am bilipala ar fynydd iâ".

Roedd un cyfrannwr yn teimlo bod angen dybryd i'r Pwyllgor ymchwilio i bolisiau ac arferion rhai o'r prif siopau llyfrau yng Nghymru a chychwyn deialog â nhw.

Awgrymwyd y dylid gwneud mwy i fynd â llyfrgelloedd teithiol i gymoedd y De-Ddwyrain, i ffatrioedd, ysgolion, canolfannau siopa, swyddfeydd ac i ardaloedd gwledig. At hynny, dylid annog llyfrwerthwyr i ddilyn esiampl y siop

Gymraeg yn Aberystwyth, Siop y Pethe, a agorodd yn y chwedegau gan wneud byd o wahaniaeth mewn fawr o dro i werthiant llyfrau Cymru.

O safbwynt mwy cadarnhaol, roedd cefnogaeth eang i ddogfen ymgynghori Cyngor Llyfrau Cymru "Strategaeth Farchnata Cytûn": "Allweddol"; "y glasbrint gorau sydd ar gael i fynd i'r afael ag un o'r problemau mwyaf dybryd ac anodd sy'n wynebu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru". Dyna rai o'r sylwadau a wnaed. Argymhellwyd bod y Pwyllgor yn cynnwys y ddogfen derfynol fel rhan o'r adolygiad hwn.

Teimlwyd bod y strategaeth dan sylw yn ddogfen bwysig gan ei bod yn adlewyrchu barn awduron, cyhoeddwyr, siopau llyfrau a llyfrgelloedd. Bydd yn cael ei chydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru. Roedd ymatebydd arall yn gobeithio y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yn dda i neilltuo'r adnoddau angenrheidiol i roi'r strategaeth ar waith.

Tynnwyd ein sylw at rôl farchnata llyfrgelloedd. Roedd un cyfrannwr yn teimlo y dylent fod yn flaenllaw o ran annog ysgrifennu newydd yng Nghymru, ond dydyn nhw ddim. Teimlwyd nad yw Awdurdodau Lleol i bob golwg yn delio'n uniongyrchol â Chyngor Llyfrau Cymru ac ymddengys nad yw eu cyflenwyr chwaith. Ar y llaw arall, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod pob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru yn perthyn i "Estyn Allan" (y telir amdano gan Loteri'r Celfyddydau). Ei amcan yw gwella sgiliau staff llyfrgelloedd i annog pobl i ddarllen, ehangu gorwelion darllenwyr, trefnu digwyddiadau a hyrwyddo. Dywedodd un Awdurdod Lleol ei fod yn awyddus i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am lenyddiaeth ac awduron ac o feithrin darllenwyr. Roedd llyfrgellyddion, meddent, yn gweld hyn fel rhan ganolog o'u gwasanaeth er nad oedd y byd llyfrau'n gyffredinol wedi cydnabod hyn hyd yma. Dywedodd Awdurdod Lleol arall, wrth gefnogi'r ddogfen ymgynghori "Strategaeth Farchnata Gytûn", ei fod yn croesawu'r rôl a awgrymir ar gyfer y gwasanaethau llyfrgell a phwysodd ar y Pwyllgor i beidio â'u diystyru.

Materion marchnata eraill a godwyd:

- efallai bod yna fwy o gefnogaeth nag ydym yn sylweddoli; os yw hyn yn wir, mae'r broses rhannu gwybodaeth yn wan ac aneffeithiol
- dylai'r sector preifat gefnogi atgyfodiad fersiwn fodern, lliwgar a deniadol o "Books from Wales"
- mae diffyg adolygiadau awdurdodol a rheolaidd o lyfrau yng Nghymru
- mae angen catalog o ddeunyddiau, gwybodaeth ac adolygiadau Cymreig
- mae angen nawdd ar y newyddiaduron hynny sy'n cyhoeddi gwaith awduron newydd a gwaith arbrol gan ei fod yn gyfle i gyrraedd cynulleidfa.

Ar **gyhoeddi**, awgrymwyd bod cyhoeddwyr yn brin gyda'r rhan fwyaf mewn pentrefi a threfi bach. Ar ben hynny, maent yn brin o adnoddau, heb fawr o gyfalaf, mae eu helw'n fach a'u llif arian yn araf. Maent yn amharod neu'n ei chael hi'n anodd cydweithio neu gymryd rhan mewn prosiectau uchelgeisiol neu arbrol ac maent yn orddibynnol ar gymhorthdal cyhoeddus - âi ambell un i'r wal hebddo.

Yr unig eithriad yn ôl yr ymatebion yw Gwasg Prifysgol Cymru, y peth tebycaf yng Nghymru i gyhoeddwr proffesiynol. Ond mae'n dibynnu ar gymorthdaliadau gan y Brifysgol ac fel arfer, dim ond gwaith academaidd a nifer fach ohonyn nhw y mae'n ei gyhoeddi.

Roedd yr un cyfrannwr yn credu bod angen ychydig yn fwy o imprintiau cyhoeddi (nid gweisg) ar Gymru sy'n arbenigo mewn cyhoeddi llyfrau Saesneg. Mae Seren a Parthian eisoes yn y maes a gellid rhoi adnoddau gwell iddynt e.e. staff golygyddol a marchnata. Dylid rhoi mwy o arian i fentrau fel y Literary Publishers (Wales) Ltd, un o'r arwyddion calonogol prin diweddar ym maes cyhoeddi Saesneg, iddynt hyrwyddo'u llyfrau. Dylid darparu cynlluniau hyfforddi i wella sgiliau staff cyhoeddi.

Awgrymwyd hefyd fodd bynnag, heb gyhoeddwr cwbl fasnachol yng Nghymru neu gyhoeddwr sy'n derbyn lefel digonol o gymhorthdal a fyddai'n gallu cyrraedd pob rhan o'r wlad a chystadlu yn Lloegr a thu hwnt. na fydd fawr ddim yn newid.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried sefydlu Ty Cyhoeddi Cenedlaethol fel ateb. Byddai'n delio â phroblemau penodol cyhoeddi llyfrau Saesneg yng Nghymru; ond byddai angen buddsoddi arian mawr iawn ynddo.

Cymharwyd hyn eto â'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgrifennu Cymraeg. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd rhywbeth mawr yn bod ar ddiwylliant lle nad oedd siaradwyr yr iaith fwyafrifol yn darllen llyfrau am eu gwlad, ond lle roedd siaradwyr y Gymraeg yn prynu ac yn darllen digon ohonynt i wneud cyhoeddi yn yr iaith honno fwy neu lai'n ymarferol (er nid heb gymorth grantiau a seilwaith wedi'i osod gan gyrff cyhoeddus).

Dywedodd un cyhoeddwr iddo gael profiad yn y deunaw mis diwethaf o gael comisiynu awduron Cymraeg ar raddfa na fyddai wedi gallu ei ystyried o'r blaen. Mae'r arian ychwanegol i awduron Cymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gwednewid y ffordd y mae awduron yn gweithio ac yn cynhyrchu llyfrau y mae'r farchnad yn galw amdanynt. Mae'r berthynas ag awduron yn fwy proffesiynol, mae bosibl cadw at amserlen ac mae wedi dod â hyder newydd i fydd llyfrau. Dyna'n union sydd ei angen i adfywio ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru hefyd. I allu dwyn perswad ar yr awduron gorau i ysgrifennu am themâu Cymreig ac i gyhoeddi yng Nghymru, i gytuno ar amserlen a chadw ati; mae hynny i gyd yn bosibl os oes tâl rhesymol am y gwaith ar gael. I roi i'r awdur Saesneg beth sydd eisoes ar gael i awdur Cymraeg yw'r man cychwyn; bydd yn arwain at bob math o gydweithio a bydd yn lleihau'r drwgdeimlad rhwng dwy adain ein diwylliant ysgrifennu".

Dulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lenyddiaeth ac awduron cyfrwng Saesneg yng Nghymru

Oddi wrth gyhoeddwr o Gymru:

"Does neb yn rhoi digon o sylw i godi ymwybyddiaeth o lenyddiaeth Saesneg Cymru. Mae'n drueni nad oes rhywun yn gwneud i'n diwydiant ni beth mae Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA wedi'i wneud i'r diwydiant bwyd yng Nghymru. Ai dim ond mater o arian yw e? Onid yw hefyd yn gofyn am weledigaeth, crebwyll, dealltwriaeth ddofn o'r sector cyfan, ymwrthod ag elitaeth, cred ddiwyll bod Cymru yn ei holl agweddau yn golygu rhwybeth a bod y Fabel fawr o leisiau gwahanol sy'n ysgrifennu yn Saesneg (yn ogystal o bosibl ag yn Gymraeg) yn aros am glust i wrando arnynt? Nid yw'n fater yn unig o gael hyd i ysgrifennu gwydn a chaled o'r cymoedd neu i roi ychydig o liw ar leisiau Bae Caerdydd. Nid oes yna'r un corff â'r un angerdd dros ysgrifennu Saesneg o Gymru ag y'i cewch chi'n rhwydd dros ysgrifennu Cymraeg. (Un fantais fawr ysgrifennu mewn iaith dan fygythiad yw bod llawer iawn o bobl yn barotach i gefnogi'r hyn rydych yn ei gyhoeddi)."

Cafwyd nifer o gwynion mwy penodol eu natur am rôl y cadwyni llyfrwerthwyr preifat; "sgandal o'r radd flaenaf" meddai un cyfrannwr. Teimlwyd y dylai'r Pwyllgor eu hatgoffa bod cyfrifoldeb arnynt i gydnabod pwysigrwydd datblygu ysgrifennu a thraddodiadau diwylliannol amlieithog yng Nghymru. Y sefyllfa fel ag y mae (fel y dywedwyd ynghynt) yw bod llyfrau Saesneg (os ydynt yn cael eu stocio o gwbl) yn cael eu cadw yn yr adran Diddordebau Lleol.

Ar y llaw arall, dywedodd Cyngor Llyfrau Cymru bod ei gynllun maes a'i dîm gwerthu yn helpu cyhoeddwr ac awduro fel ei gilydd. Ac o ganlyniad, mae'r cyhoedd yn elwa. Trwy'r cynllun, mae'n cynhyrchu taflenni a chatalogau ac yn ceisio ehangu'r farchnad a chodi ymwybyddiaeth cwsmeriaid trwy sicrhau presenoldeb mewn archfarchnadoedd. Hefyd, mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Marchnata Tramor.

Teimlwyd bod gan y cyfryngau ran fawr iawn i'w chwarae. Gallai'r BBC er enghraifft ddefnyddio'i 'fillers' 30 eiliad i godi ymwybyddiaeth am ysgrifennu newydd. Dywedodd cyfrannwr arall bod cyn lleied o sylw'n cael ei roi i lyfrau Saesneg ar y radio a'r teledu ac yn y papurau fel bod llawer o lyfrau da'n ymddangos heb air yn cael ei ddweud amdanynt yn gyhoeddus. Mae rhaglenni Cymraeg yn fwy tebygol, yn wir, o roi sylw iddynt na rhaglenni Saesneg.

Dywedodd cyfrannwr arall bod gan gylchgronau llên eu rhan yn hyn o beth ac y dylai'r Pwyllgor ystyried sut y mae'n eu hariannu gyda golwg ar gryfhau eu potensial masnachol. Awgrymwyd y dylai'r Eisteddfod Genedlaethol, er mai dathlu'r iaith Gymraeg yw ei diben pennaf, ddathlu hefyd ddiwylliant Cymru ac mae rhoi cyn lleied o sylw i waith cyfrwng Saesneg mewn digwyddiad mor fawr yn wrthgynhyrchiol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod llyfrgelloedd yn teimlo bod ganddynt ran bwysig i'w chwarae o ran marchnata llenyddiaeth a gwaith ysgrifennu, er bod y rôl honno'n cael ei diystyru. Un o flaenoriaethau pennaf y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yw annog pobl i ddarllen at ddiben eu boddhad personol yn ogystal â buddiannau eraill. Yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol, mae llawer o lyfrgelloedd yn cynnal hyrwyddiadau lleol, grwpiau darllen a rhaglenni datblygu darllenwyr. Byddai buddsoddiad

gymharol fach yn rhoi mwy o ffocws i'r gweithgareddau hyn ac yn cryfhau sefyllfa llyfrgelloedd lleol fel canolfannau diwylliannol. Yn ogystal, teimlwyd y dylid cydnabod potensial technoleg newydd mewn llyfrgelloedd i hyrwyddo llenyddiaeth ac awduron. Gyda'r Rhwydwaith y Bobl gafodd ei noddi gan y Loteri, mae gan bron bob llyfrgell yng Nghymru bellach gyfrifiaduron y gall awduron eu defnyddio i gyrraedd darllenwyr newydd trwy gyfrwng amrywiaeth o ffyrdd cyffrous a blaengar.

I gloi, cynigiodd nifer o'r ymatebwyr fod angen meddwl yn galetach am wobrau a seremonïau gwobrwyo, ac yn arbennig Llyfr y Flwyddyn sydd prin yn ennyn unrhyw sylw yng Ngwyl y Gelli.

Rhwystrau a Chyfleoedd

Rhwystrau

- Nid yw'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru erioed wedi'i ddatblygu'n llawn. Mae'n cyhoeddi llai na 0.3% o deitlau Saesneg y DU er bod Cymru'n cynrychioli 5% o boblogaeth y DU. Mae cyhoeddi masnachol yn ymylol a bregus.
- Siopau cadwyn sy'n dominyddu'r byd gwerthu llyfrau ac maent yn ddihid neu'n anwybodus ynghylch cyhoeddiadau cyhoeddwy'r Cymru.
- Tra roedd Cyngor Celfyddydau Cymru'n gyfrifol am y grant cyhoeddi, roedd yn cael ei gyfyngu i gyhoeddiadau llenyddol neu artistig (oherwydd telerau'r Siarter). Ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Llyfrau cafwyd gwared ar rai o'r hen rwystrau a chanolbwyntir yn awr ar agweddau mwy masnachol, ond mae'r gyllideb yn parhau'n fach.
- Nid yw awduron a chyhoeddwy'r Cymru yn cael llawer o sylw yn y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru.
- Gan mai lle ymylol sydd i weithiau cyfrwng Saesneg yn y system addysg nid yw pobl yn ymwybodol iawn o ysgrifennu Saesneg o Gymru.
- Nid oes digon o wybodaeth ddiweddar ar gael am ffigurau cynhyrchu, prynu a darllen llyfrau yng Nghymru. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod beth yw cyfran cyhoeddwy'r Cymru o'r farchnad gyfan yng Nghymru, ond mae gwybodaeth o'r fath yn hanfodol ar gyfer cynllunio strategaethau.
- Nid yw llyfrwerthwyr bychain, annibynnol prin eu hadnoddau yn gallu mentro cyflenwi teitlau sydd heb sicrwydd o gael cyhoeddusrwydd ac a fydd felly'n anodd eu gwerthu. Mae stoc y siopau cadwyn yn cael ei rheoli y tu allan i Gymru ac nid oes llawer o ystyriaeth yn cael ei roi i lyfrau o Gymru, os o gwbl.
- Un o'r prif rwystrau yw bod llawer o'r llyfrau sy'n cael eu cyhoeddi wedi'u cyfyngu i bobl sydd â diddordeb mewn maes penodol. Nid ydynt o ddiddordeb i amrediad eang o'r boblogaeth. Nododd Grwp Gorchwyl a Gorffen y Cynulliad ar gyhoeddi yn y Gymraeg fod angen llyfrau poblogaidd yn y Gymraeg. Mae'r un peth yn wir am lyfrau Saesneg.
- Mae ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru wedi'i wthio i'r ymylon gan y sector adwerthu a'r cyfryngau. Mae gweithiau newydd yn cael eu rhoi yn yr "adrannau am Gymru", ac nid yw'r prif adwerthwyr yn cadw unrhyw stoc graidd o Gymru. Nid yw hyn yn cymharu'n dda â'r Alban a Gogledd Iwerddon lle mae adwerthwyr yn hyrwyddo ysgrifennu cenedlaethol.

- Nid oes adolygiadau dwfn o lyfrau yn y cyfryngau yng Nghymru.
- Nid oes system wedi'i sefydlu ar gyfer gwerthu llyfrau y tu allan i Gymru.

Cyfleoedd

- Dylid trefnu cyfres o ddiwyddiadau "Awduron Cymru" yng Nghymru a thramor; elfennau llenyddol newydd mewn gwyliau; Bardd Llawryfog i Gymru; dylai ysgrifennu cyfrwng Saesneg fod yn flaenllaw yn nathliadau Caerdydd 2005.
- Am y tro cyntaf erioed, mae gan Gymru gorff sydd wedi ymrwymo i ddatblygu pob agwedd ar gyhoeddi yng Nghymru. Gan i Gyngor y Celfyddydau drosglwyddo'i gyfrifoldebau yn y maes hwn i'r Cyngor Llyfrau ym mis Ebrill 2003, mae'n bosibl yn awr ystyried y sector mewn modd strategol a chynhwysfawr yn hytrach nag ymdrin â'r sector bob yn 'damaid' fel ag o'r blaen.
- Mae yna farchnad boblogaidd yng Nghymru ond nid yw'n cael ei digoni gan lyfrau poblogaidd o Gymru. Mae llwyddiant achlysurol teitlau poblogaidd (ee cofiannau o'r byd chwaraeon) gan gyhoeddwyr llenyddiaeth ar y cyfan yn dangos bod modd ehangu yn y maes hwn.
- Mae croesdoriad o sefydliadau o'r byd cyhoeddi a masnach, ar y cyd â'r Cyngor Llyfrau, wedi llunio *Strategaeth Farchnata Gytûn* (Gorffennaf 2003) ar gyfer ymgynghori arni. Nod y strategaeth hon yw ehangu'r farchnad lyfrau yng Nghymru.
- Gall gwerthu hawliau fod yn broffidiol iawn i awduron a chyhoeddwyr, a dyna yw prif nod pob cyhoeddwr uchelgeisiol. Mae cyhoeddwyr ac asiantaethau o Gymru (gan gynnwys y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru Dramor) wedi bod mewn ffeiriau llyfrau mawr (Llundain, Frankfurt, Bologna ac ati). Mae hynny wedi bod yn eithaf llwyddiannus, er bod yr arian ar gyfer datblygu'r isadeiledd cyhoeddi yn brin ac yn ansefdlog.
- Mae yna nifer o awduron dawnus o Gymru sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd (llenyddiaeth, newyddiaduraeth, diwylliant poblogaidd ac ati) i wella ac ehangu rhestrau cyhoeddwyr Cymru, pe baent yn cael digon o gomisiwn neu freindal. Oherwydd yr arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad (yn dilyn gwaith y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi) o Ebrill 2002 roedd y Cyngor Llyfrau'n gallu ariannu cynllun i gomisiynu awduron. Mae'r grantiau, sydd ar gael i awduron Cymraeg yn unig eisoes wedi dechrau cael effaith fawr ar y math a'r nifer o lyfrau a gyhoeddir, ac wedi'i gwneud hi'n haws i gyhoeddwyr gynllunio'u rhestrau. Mae yna bob rheswm i gredu y byddai cynllun tebyg yn Saesneg yn arwain at fanteision tebyg i awduron, cyhoeddwyr a darllenwyr.
- Er mai ar raddfa fach iawn yn unig y gwneir hyn ar hyn o bryd, mae llwyddiant y cyhoeddwyr sy'n gyfrifol am hyrwyddo llyfrau o Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol yn dangos bod potensial ar gyfer mentrau tebyg gyda'r cyfryngau yng Nghymru.
- Gellir defnyddio gwyliau mawr fel Gwyl y Gelli yn llawer mwy effeithiol i hyrwyddo proffil awduron a chyhoeddwyr o Gymru.
- Yn dilyn argymhellion adroddiadau Rightscom ar gyhoeddi, adwerthu a marchnata drwy gyfrwng electronig, mae'r Cyngor Llyfrau yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn datblygu adnoddau gwybodaeth, gan

gynnwys creu "storfa wybodaeth", a fyddai'n cydlynu sector sydd wedi bod yn ddarniog erioed.

- Mae cyrsiau i israddedigion ac uwchraddedigion ym Mhrifysgol Cymru Abertawe (CREW - Canolfan Ymchwilio Llen ac Iaith Saesneg Cymru), Prifysgol Cymru Bangor (Canolfan R.S.Thomas) a Phrifysgol Morgannwg yn creu galw am destunau newydd a chlasurol yn Saesneg o Gymru. Maent hefyd yn creu llu o arbenigwyr gyda llawer ohonynt yn mynd ymlaen i weithio yn y system addysg yng Nghymru i greu cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr fydd â llawer mwy o ddi-ddordeb yn ysgrifennu Saesneg Cymru. Mae gan yr ysgolheigion sy'n gysylltiedig â'r mentrau allweddol hyn yr arbenigedd a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi datblygiadau newydd.
- Mae gwaith yr AWE (Association of Welsh Writing in English) dros ddau ddegawd yn meithrin darllenwyr o bob math ar gyfer gweithiau Saesneg o Gymru (yn aml iawn mae'i chynadledau blynyddol yn Gregynog yn orlawn) ac mae wedi paratoi'r ffordd ar gyfer mentrau newydd.
- Mae angen i'r ddau brif gyswllt yn y gadwyn lyfrau gyfathrebu'n llawer gwell, sef y cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr, ac hefyd cyhoeddwyr a'r cyfryngau, cyhoeddwyr a gwyliu a charfanau eraill.

Cysylltiadau â sectorau eraill e.e. Addysg a Thwristiaeth

Y farn gyffredinol oedd bod gan ACCAC a CBAC rôl hanfodol o ran llunio polisiâu ar gyfer y cwricwlwm ac arholiadau. Mae ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin darllenwyr ac awduron y dyfodol. Mynegwyd safbwyntiau cryf am y sector addysg. Roedd nifer o ymatebion yn honni bod diwylliant llenyddol Saesneg y wlad bron yn cael ei hanwybyddu'n systematig. Dadleuwyd bod y system wedi methu cael y genhedlaeth ifanc o fyfyrwyr i ddeall diwylliant y Gymru fodern. Dywedwyd y byddai ymdrwytho darllenwyr ifanc yn niwylliant Cymru yn arwain yn y pen draw at greu marchnad gref ar gyfer gweithiau o Gymru.

